OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 3143

# Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008

## RHAN 6

Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwrtaith nitrogen

### Ystyr "tail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd"

**24.** Yn y Rhan hon ystyr "tail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd" ("*organic manure with high readily available nitrogen*") yw tail organig y mae mwy na 30 y cant o gyfanswm y nitrogen sydd ynddo ar gael i'r cnwd adeg y taenu.

### Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu tail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd

**25.** Ni chaiff neb daenu tail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd ar dir ar y dyddiadau canlynol, a phob un ohonynt yn ddyddiad cynhwysol ("y cyfnod gwaharddedig") —

**Y cyfnod gwaharddedig**

| *Y math o bridd* | *Glaswelltir* | *Tir tro* |
|---|---|---|
| Pridd tywodlyd neu bridd tenau | 1 Medi to 31 Rhagfyr | 1 Awst i 31 Rhagfyr |
| Pob pridd arall | 15 Hydref i 1 Hydref i 15 Ionawr | 15 Ionawr |

### Esemptiadau: cnydau a heuir cyn 15 Medi

**26.** Caniateir i dail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd gael ei daenu ar dir tro gyda phridd tywodlyd neu bridd tenau rhwng 1 Awst a 15 Medi yn gynhwysol ar yr amod bod y cnwd yn cael ei hau ar neu cyn 15 Medi.

### Esemptiadau ar gyfer daliadau organig

**27.** Caiff meddiannydd daliad sydd wedi'i gofrestru'n gynhyrchydd organig gyda chorff a gofrestrwyd gan y Pwyllgor Cynghori ar Safonau Organig(**1**) daenu tail organig gyda chyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd ar unrhyw adeg—

(a) ar gnydau a restrir yn y tabl yn Atodlen 3 (cnydau a ganiateir am y cyfnod gwaharddedig), neu

(**1**) Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Safonau Organig yn gorff cyhoeddus anweithredol ac anadrannol sy'n cymeradwyo cyrff arolygu organig.

(b) ar gnydau eraill yn unol â chyngor ysgrifenedig gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau (**2**),

ar yr amod na fydd pob hectar y mae tail organig yn cael ei daenu arno yn cael mwy na chyfanswm o 150 kg o nitrogen rhwng dechrau'r cyfnod gwaharddedig a diwedd Chwefror.

**Cyfyngiadau ar ôl y cyfnod gwaharddedig**

**28.** O ddiwedd y cyfnod gwaharddedig tan ddiwedd Chwefror—

(a) 50 metr ciwbig yr hectar yw uchafswm y slyri y caniateir ei daenu ar unrhyw un adeg ac 8 tunnell yr hectar yw uchafswm y tail dofednod y caniateir ei daenu ar unrhyw un adeg; a

(b) rhaid bod o leiaf dair wythnos rhwng pob taeniad.

**Amserau pryd y gwaherddir taenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd**

**29.**—(1) Ni chaiff neb daenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd ar dir yn ystod y cyfnodau canlynol (mae pob dyddiad yn gynhwysol)—

(a) yn achos glaswelltir, o 15 Medi i 15 Ionawr, neu

(b) yn achos tir tro, o 1 Medi i 15 Ionawr.

(2) Caniateir i wrtaith gael ei daenu yn ystod y cyfnodau hyn ar y cnydau a bennir yn y Tabl yn Atodlen 3, ar yr amod nad eir dros y gyfradd uchaf yng ngholofn 2.

(3) Caniateir taenu yn ystod y cyfnodau hynny ar gnydau nad ydynt yn Atodlen 3 ar sail cyngor ysgrifenedig gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau.

**Amddiffyniad**

**30.** Mewn unrhyw achos cyfreithiol am dorri darpariaeth yn y Rhan hon sy'n ymwneud â thail organig, mae'n amddiffyniad i'r diffynnydd brofi—

(a) bod y torcyfraith wedi digwydd cyn 1 Ionawr 2012, a

(b) nad oedd gan y daliad y cyfleusterau storio ar gyfer tail organig sy'n ofynnol o dan Ran 7 adeg y torcyfraith.

(**2**) Mae'r cynllun yn cael ei weinyddu gan Basis Registration Ltd, a gellir cael rhestr o bersonau cymwysedig oddi wrth y cwmni drwy wneud cais neu ar ei wefan www.basis-reg.com.